**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 20 Chwefror 2023 am 5.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd K M Roberts (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | H Lawson | S J Rice |
| S E Keeton | A J O'Connor | |
| N L Matthews | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Anderson | Aelod y Cabinet dros Gymunedau |
| Y Cynghorydd D H Hopkins | Dirprwy Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd A S Lewis | Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Project Manager Strategic Climate Change |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

## 29 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd S J Rice gysylltiad personol â chofnod rhif 32 - Bwyd Cynaliadwy.

## 30 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Newid yn yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 31 Bwyd Cynaliadwy.

Rhoddodd Geoff Bacon, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo a Jane Richmond, Rheolwr Prosiect Strategol Newid yn yr Hinsawdd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn ceisio barn a syniadau am ymagweddau arfaethedig tuag at:

1.Ddatblygu Polisi Bwyd Cynaliadwy ar gyfer Cyngor Abertawe
2.Cefnogi sir Abertawe ehangach o ran Bwyd Cynaliadwy.

Amlinellwyd, fel rhan o ddyhead Cyngor Abertawe i gyflawni sero net erbyn 2030 ac er mwyn cyd-fynd ag agenda sero net Cymru erbyn 2050, fod yr adroddiad yn bwriadu dangos uchelgais i hyrwyddo system fwyd iach a chynaliadwy ar lefel sefydliadol ac ar draws y sir, â'r bwriad o wella bywydau pobl a lleihau ein heffaith ar y blaned drwy fwyd.

Darparwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Bwyd Cymru yn Atodiad 1. Diben hwn yw sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru. Roedd Atodiad 2 yn darparu Prif Benawdau Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Cyngor Abertawe ac Atodiad 3 yn darparu Datganiad Sefyllfa Gweithgarwch Bwyd Cynaliadwy Abertawe.

Amlinellwyd mai'r cynnig oedd y dylai polisi newydd gyd-fynd â nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd Bil Bwyd Cymru sy'n ddisgwyliedig, gyda rhywfaint o fanylion pellach wedi'u hychwanegu fel yr awgrymwyd gan swyddogion a'i ddrafftio ar gyfer trafodaeth. Ar ôl cytuno ar y themâu allweddol, byddai polisi drafft yn cael ei ddatblygu a'i gylchredeg, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i'r Cabinet yn unol â chymeradwyo Bil Bwyd Cymru.

Cyfeiriwyd at y gweithgarwch sylweddol a'r gwaith da sy'n digwydd ar draws y sir yn barod. Ychwanegwyd bod Bwyd Abertawe yn arbennig yn hybu ymgyrch fawr wedi'i chefnogi gan gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru. Rhagwelwyd y byddent yn arwain ar yr agenda ar gyfer Abertawe gyfan.

Crynhowyd y byddai datblygu Polisi Bwyd Cynaliadwy Cyngor Abertawe a chefnogi'r gymuned ehangach gan ddefnyddio nodau Bil Bwyd Cymru fel seiliau, yn sicrhau bod gan bob parti negeseuon cyson ac uchelgeisiol ar yr agenda hon sy'n symud yn gyflym.
Mae Bil Bwyd Cymru ar gam un proses pedwar cam ar hyn o bryd, felly byddai datblygu polisi ar gyfer Cyngor Abertawe gyda'r Pwyllgor, yn barod ar gyfer yr adeg y disgwylir iddo gael ei gymeradwyo, yn fanteisiol.

Amlygodd y Cadeirydd yr angen am drafodaethau a gweithdai pellach i ddatblygu'r polisi. Cyfeiriodd y Cynghorydd D H Hopkins, Dirprwy Arweinydd y Cyngor at yr angen i ddefnyddio cynnyrch lleol i ddarparu bwyd maethlon, i ddatblygu polisi a defnyddio'r arbenigedd sydd gan y cyngor yn y maes hwn.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Tyfu cymunedol, defnyddio rhandiroedd/mannau gwyrdd a biwrocratiaeth yn llesteirio'r broses.
- Nodi tir addas a'r anawsterau y deuir ar eu traws, yr angen i gytuno ar bolisi a defnyddio'r economi gymysg ehangach i symud materion yn eu blaen.
- Defnyddio gwastraff bwyd fel gwrtaith ar gyfer cynhyrchu bwyd/ynni yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r bwyd a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio ac nid yn cael ei wastraffu, yn enwedig darparu bwyd ffres i fanciau bwyd.

- Yr angen i gadw milltiroedd bwyd i lawr wrth iddo gael ei gynhyrchu/ddosbarthu, defnyddio cynhyrchwyr bwyd lleol a sut gallai gweithdrefnau caffael gynorthwyo yn hyn o beth.
- Llunio taflen ffeithiau data i fusnesau lleol yn enwedig o ran hylendid/ailgylchu a chompostio gwastraff bwyd.
- Sut roedd gwastraff bwyd yn cael ei gludo ar hyn o bryd i Gasnewydd a'i droi'n ynni.
- Dylanwadu ar arferion siopa pobl drwy eu hannog i brynu'r hyn y mae ei angen arnynt yn unig, effaith y diffyg sgiliau coginio ar gyllidebau pobl a sut mae'r argyfwng ynni wedi golygu bod rhai unigolion yn methu fforddio coginio.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ymagweddau arfaethedig ar gyfer y canlynol:

1) Datblygu Polisi Bwyd Cynaliadwy Cyngor Abertawe.
2) Cefnogi Sir Abertawe ehangach o ran Bwyd Cynaliadwy.

## 32 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith diweddaredig ar gyfer 2022-23 'er gwybodaeth'.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.11 pm

**Cadeirydd**